

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2017

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Jim Evans, T.Ll. Hughes MBE, Carwyn Jones, R.Ll. Jones, G.O. Jones a Dafydd Rhys Thomas.
- Aelodau eraill o'r Cyngor Sir a wahoddwyd i'r cyfarfod**
- Y Cynghorwyr John Griffith, K.P. Hughes, Llinos M. Huws, R. Meirion Jones, Ieuan Williams.
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Gwelliannau Cymunedol a Gwasanaethau),
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Rheolwr Integreiddio ac Ymgysylltu (MP) (mewn perthynas ag eitem 5),
Uwch Reolwr Partneriaeth (LJ) (mewn perthynas ag eitem 6),
Cydlynnydd Camdriniaeth Ddomestig (MP) (mewn perthynas ag eitem 5),
Swyddog Sgriwtini (GR),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Ms. Anest G. Frazer – Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru.
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Richard O. Jones a'r Cynghorydd Dylan Rees (Aelodau o'r Pwyllgor)
- Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeffrey M. Evans, Aled M. Jones, H. Eifion Jones, J. Arwel Roberts, Alwyn Rowlands.
- Pennaeth Gwasanaethau Plant

Llongarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd T.Ll. Hughes ar dderbyn MBE.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd G.O. Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

1 ETHOL CADEIRYDD

Cafodd y Cynghorydd Jim Evans ei ethol yn Gadeirydd.

Diolchodd y Cynghorydd Evans i Aelodau'r Pwyllgor am ddangos hyder ynddo i Gadeirio'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Cyfeiriodd at Gadeirydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, Mr Derlwyn R Hughes, a oedd wedi penderfynu sefyll i lawr fel Aelod Etholedig ward aml-aelod Lligwy a hynny'n dilyn derbyn cyngor meddygol. Roedd Mr Derlwyn R Hughes wedi cynrychioli Ward Moelfre yn flaenorol wedi iddo gael ei ethol i'r hen Gyngor Bwrdeistref ym 1989. Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Derlwyn R Hughes yn uchel iawn ei barch fel Aelod Etholedig ac fel Cadeirydd o'r Pwyllgor hwn.

Roedd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Alun Mummery, hefyd yn dymuno diolch i Mr Derlwyn R Hughes am yr arweiniad a ddangosodd iddo fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn. Nododd fod gan Mr Derlwyn R Hughes barch mawr tuag at waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Mynegodd Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor eu dymuniadau gorau i Mr Derlwyn R Hughes.

2 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

3 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

4 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2016 fel rhai cywir.

5 ASESAD ANGHENION POBLOGAETH

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Phennaeth y Gwasanaethau Plant dros dro mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn nodi anghenion gofal a chefnogaeth presennol y boblogaeth ac ar gyfer y dyfodol, ynghyd ag anghenion cefnogaeth gofalwyr. Mae Ardal Gogledd Cymru yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhaid paratoi un adroddiad ar gyfer Ardal Gogledd Cymru a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y chwe Chyngor Sir a Bwrdd y Gwasanaeth Iechyd Lleol erbyn 1 Ebrill, 2017. Fe nododd fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) angen i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu adroddiad asesiad poblogaeth ar gyfer pob cylch etholiadol llywodraeth leol, bob 5 mlynedd, ynghyd ag adolygiad o'r asesiad ar ôl dwy flynedd. Nodwyd y

bydd yr Aseiad Anghenion Poblogaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhelir ym mis Chwefror ac yn dilyn hynny fe'i cyflwynir i'r Cyngor llawn ar gyfer ei gymeradwyo.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y bydd yr Aseiad Anghenion Poblogaeth yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer ystyried gwasanaethau gofal a chefnogaeth y bydd eu hangen ar bobl yr Ynys yn y dyfodol. Bydd delio â'r cynnydd ym mhoblogaeth y bobl hŷn a phobl anabl yn heriol. Mynegodd Aelodau bryder am lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithrediad y Cynllun Ardal Lleol.

Cododd yr Aelodau y materion canlynol:-

- Gofynnwyd cwestiynau o ran sut roedd yr aseiad anghenion poblogaeth yn cael ei ariannu. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) gan ddweud bod nifer o grantiau wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, yn ogystal ag amser swyddogion yr Awdurdod Lleol a byrddau iechyd. Cyfeiriodd yn benodol at y Grant Trawsnewid Datblygiadau (GTD) a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, mae hwn yn grant rhanbarthol er mwyn ariannu cydweithio ac arloesedd ar draws nifer o feysydd. Mae cyllid o'r grant GTD wedi hwyluso cyflogi Swyddog i gydlynu'r gwaith o baratoi'r Aseiad Anghenion Poblogaeth. Mae'r Grant Gofal Canolradd (GGC) hefyd wedi'i dderbyn sy'n canolbwyntio ar roi i bobl y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn eu galluogi i beidio â mynd i'r ysbyty yn ddi-angen, er mwyn eu helpu i fyw mewn modd mor annibynnol a phosibl ar ôl dod allan o'r ysbyty ac er mwyn eu hatal rhag gorfod symud i gartrefi preswyl neu gartrefi nyrsio tan fod gwir angen. Bydd y gronfa hon yn cefnogi'r bartneriaeth ranbarthol er mwyn ystyried gwasanaethau arloesol er mwyn bodloni'r anghenion y tynnwyd sylw atynt yn y PNA wrth symud ymlaen.
- Codwyd cwestiynau o ran pryd fydd yr awdurdod yn ymgynghori â sefydliadau/grwpiau allanol nad yw rhywun wedi ymgynghori â nhw hyd yma yn ystod y broses ymgynghori bresennol. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr drwy ddweud bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi'r angen i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau. Nododd y Rheolwr Integreiddio ac Ymgysylltu, o ganlyniad i amserlen y cyfnod ymgynghori, nad oedd y sector Camddefnyddio Sylweddau wedi'i ymgynghori ag ef yn fanwl. Fe nododd y byddai'n ddefnyddiol cael rhestr o ymgynghoreion na ymgysylltwyd â nhw yn ystod y broses hon o bosibl er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â nhw yn ystod yr adolygiad nesaf o'r aseiad poblogaeth ymhen 2 flynedd.
- Codwyd cwestiwn am y cydweithio gyda'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ac enwedig mewn perthynas â Chartref Preswyl Garreglwyd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol mewn perthynas â Chartref Preswyl Garreglwyd a nododd ei fod yn rhannu rhwystredigaeth yr Aelodau Etholedig o ran y cynnydd araf sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.
- Ystyriodd Aelodau bod angen i Gyngor Gyrfaoedd ar gyfer pobl ifanc yn yr Ysgolion Uwchradd ganolbwyntio ar yrfaedd o fewn y sector iechyd, yn

enwedig gan fod y PNA wedi tynnu sylw at y ffaith y gall fod prinder Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion yn y dyfodol. Codwyd cwestiynau am yr anawsterau wrth recriwtio staff Cymraeg o fewn y sector iechyd. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gan ddweud fod nifer o'r Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion sy'n gweithio ar yr Ynys yn gallu siarad Cymraeg ond ei bod hi'n fwy o her cael gweithwyr sector gofal dwyieithog.

- Codwyd cwestiynau am faint o blant o awdurdodau lleol eraill sydd mewn gofal ar yr Ynys. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod 50 o blant rhwng 0 ac 18 oed mewn gofal ar yr Ynys. Holodd yr Aelodau faint o blant o Ynys Môn sy'n cael eu rhoi mewn gofal mewn awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a thu hwnt. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'n ymgynghori â'r Gwasanaethau Plant ac adrodd yn ôl drwy'r Swyddog Sgriwtini.
- Codwyd cwestiynau am y newidiadau arfaethedig i ffioedd Gofal Cartref. Holodd Aelodau os yw rhai pobl yn gallu fforddio cynnydd o'r fath ac a fyddai risg na fyddai pobl yn gallu byw yn hirach yn eu cartrefi. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod adborth gan rai defnyddwyr yn adlewyrchu y byddai'n well ganddynt beidio â gweld newid yng nghostau'r Gwasaneth Gofal Cartref. Nododd hefyd, petai rhywun yn nodi na fyddent yn gallu fforddio'r cynnydd mewn costau, y byddai eu hachos yn cael ei ystyried ar sail achos wrth achos.

PENDERFYNWYD argymhell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith:-

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r adroddiad llawn ac wedi hynny'n cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Sir ar gyfer ei gadarnhau;**
- **Bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn dechrau gweithio ar y Cynllun Ardal Leol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;**
- **Ei fod yn nodi pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithredu'r Cynllun Ardal Leol) a fydd yn dilyn ymlaen o Aseiad Poblogaeth Gogledd Cymru) ac na ddylai grwpiau a effeithir orfod ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol.**

(Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn cyflwyno'r dyfyniad o'r cofnodion drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror, 2017. Bydd copi o'r cofnodion drafft ar gael i'r Pwyllgor Gwaith ar neu cyn 14 Chwefror, 2017).

GWEITHRED: Fel yr uchod.

6 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - DIWEDDARIAD AR Y BROSES O LUNIO ASESIAD O LESIANT LLEOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Uwch Reolwr Partneriaeth mewn perthynas â'r uchod.

Nodwyd bod cytundeb wedi'i wneud i gydweithio gyda Bwrdd Ardal Awdurdod Gwynedd ac mae'r Bwrdd ar y cyd wedi bod yn cyfarfod bob chwarter yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17. Bydd angen i'r Bwrdd ymgymryd ag Asesiad Llesiant Lleol ar gyfer yr ardal.

Mae is-grŵp wedi'i sefydlu er mwyn arwain y gwaith o ymgymryd â'r asesiad ac mae'r data perthnasol wedi cael eu casglu gan y partneriaid perthnasol drwy'r grŵp hwn. Cynhaliwyd nifer o sesiynau cymunedol yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr, 2016 lle cynhaliwyd trafodaethau diddorol o fewn y cymunedau. Mae gweithdy ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i drefnu ar gyfer 25 Ionawr, 2017 lle bydd Aelodau yn trafod data, y sylwadau a dderbyniwyd gan drigolion a grwpiau ac i gytuno ar strwythur yr asesiad. Bydd drafft o'r asesiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror, 2017 er mwyn ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad anstatudol. Bydd yr Asesiad terfynol yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn mis Ebrill ac yn cael ei gyhoeddi'n llawn cyn Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai, yn unol ag anghenion y Ddeddf.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

GWEITHRED: Fel yr uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 o'r gloch

**CYNGHORYDD JIM EVANS
CADEIRYDD**